SUL Y PASG

**ACTAU 10:34-43; SALM 118:1-2, 14-24;
COLOSIAID 3:1-4; IOAN 20:1-18**

● **Gweddi agoriadol**
Gorfoleddwn a byddwn lawen,
achos mae ein Ceidwad atgyfodedig
wedi agor gatiau'r nef
a'n croesawu i mewn!
Gorfoleddwn a llawenhawn!

● **Moliant**
Gorfoleddwch!
Treiglwyd y garreg i ffwrdd,
plygwyd y dillad claddu yn daclus;
diflannodd arogl marwolaeth.
Mae'r bedd yn wag!

Arweinydd: Halelwia!
Pawb: Efe a gyfododd!

Gorfoleddwch!
Cyflawnwyd yr ysgrythurau;
diflannodd colyn marwolaeth,
enillwyd y fuddugoliaeth.
Mae'r Crist wedi atgyfodi!

Arweinydd: Halelwia!
Pawb: Efe a gyfododd!

Gorfoleddwch!
Rhwygwyd y llen yn ei hanner;
mae ein Duw yn ein croesawu i mewn,
mae aberth Crist yn ein golchi'n lân!

Arweinydd: Halelwia!
Pawb: Efe a gyfododd!

● **Cyffes**
Mae'r Pasg yn ein hatgoffa,
bob tro y byddwn
yn dy wadu di,
caiff hoelen arall ei hogi,
a phob tro
y bradychwn di,
fe'i morthwylir i'th gnawd.

Pan fo ffydd yn wan,
a themtasiwn yn gref
a dewrder yn pallu,
maddau i ni, Arglwydd.
Bydd eto
y presenoldeb atgyfodedig hwnnw
yn ein calonnau.

● Diolch

Rhown ddiolch i ti, Arglwydd,
am dy bresenoldeb bywiol yn ein bywyd!

Pan gerddem mewn tywyllwch
roeddet ti yno;
pan oeddem ar ein gliniau mewn gwendid
roeddet ti yno;
pan oeddem yn teimlo'n ddi-werth
roeddet ti yno;
pan oedd angen maddeuant
roeddet ti yno;
pan oeddem yn chwilio am drugaredd
roeddet ti yno.

Diolchwn i ti, Arglwydd,
am dy bresenoldeb bywiol yn ein bywydau!